COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

# Adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar y cyfrifon

## Adran A — Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Adroddiad i ymddiriedolwyr / cyfarwyddwyr / aelodau** | Enw'r Elusen | | | |
| **Ar y cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu** | | | | |
| | **Rhif yr Elusen:** | | Rhif y Cwmni: | |
| **I'w gweld ar dudalennau** | (cofiwch gynnwys rhifau tudalennau dalennau ychwanegol) | | | |

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr elusen ar fy archwiliad o gyfrifon y Cwmni am y flwyddyn yn diweddu DD / MM / BBBB.

**Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr a'r sail adrodd**

Fel ymddiriedolwyr elusen y Cwmni (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion y gyfraith cwmnïau), rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ("Deddf 2006").

Ar ôl bodloni fy hun nad yw'n ofynnol i gynnal archwiliad ariannol o gyfrifon y Cwmni ar gyfer y flwyddyn hon o dan Ran 16 o Ddeddf 2006 a'i fod yn gymwys i gael archwiliad annibynnol, adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon eich elusen fel y'i cwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ("Deddf 2011"). Wrth ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais y Cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011.

**Datganiad yr archwiliwr annibynnol**

[Roedd incwm gros y cwmni yn fwy na £250,000 ac rwy'n gymwysedig i gynnal yr archwiliad trwy fod yn aelod cymwysedig o [rhowch enw corff rhestredig cymwys]]. *Dilëwch [ ] os nad yw'n gymwys.*

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw (heblaw'r hyn a ddatgelir isod *) sy'n rhoi achos i mi gredu:

- ni chafodd cofnodion cyfrifyddu eu cadw yn unol ag adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 2006; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu perthnasol o dan adran 396 o Ddeddf Cwmnïau 2006 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol; neu
- nid yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â'r SORP Elusennau (FRS102).

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

**Dilëwch y geiriau mewn cromfachau os nad ydynt yn gymwys.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnodwyd:** | | **Dyddiad:** | |
| **Enw:** | | | |
| **Cymhwyster (cymwysterau) neu gorff proffesiynol perthnasol (os oes):** | | | |
| **Cyfeiriad:** | | | |
| | | | |
| | | | |

**Adran B** **Datgeliad**

Cwblhewch dim ond os oes angen i'r archwiliwr dynnu sylw at faterion o bryder perthnasol (gweler CC32, Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwilwyr).

| | |
|---|---|
| **Rhowch fanylion byr yma am unrhyw eitemau yr hoffai'r archwiliwr eu datgelu.** | |